# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 21.01.08

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr J.R.Jones (Cadeirydd); Tudor Owen a W.A.Evans

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Yn cynrychioli'r heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Yr Heddlu).; Cwnstabl Andy Vowell
**Ar gyfer cais Gwyl Wakestock yn unig:** Mark Durston (Goruchwyliwr Dynodedig yr Eiddo); Kelly Roberts, aelod o dîm trefnu Wakestock.

**Ymddiheuriad:** Y Rhingyll Dewi Jones, awdur y tri chais, oedd yn methu â bod yn bresennol

## 1. CAIS AM ADOLYGU TRWYDDED WAKESTOCK, PENRHOS, PWLLHELI

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar gais yr heddlu i adolygu trwydded eiddo Safle Wakestock, Penrhos, Pwllheli yn gofyn am amodau ychwanegol i'r drwydded ar sail Diogelwch Cyhoeddus. Adroddodd i dderbyn llythyr gan drigolyn lleol yn cyflwyno sylwadau ar y sefyllfa o ran llifogydd ar y safle ac hefyd o ran diogelwch y cyhoedd ar y ffordd yn arwain i'r safle.

Wrth gefnogi ei sylwadau, adroddodd swyddog yr heddlu ar gefndir y cais. Daeth i'r amlwg yn dilyn cynnal y digwyddiad yn mis Gorffennaf 2007 bod sawl mater yn peri pryder, megis:

a) trefniadaeth diogelwch addas
b) trefniadaeth gwasanaeth bws rhad
c) darpariaeth addas o'r safle
d) ffensio digonol ar y safle

Achoswyd y broblem fwyaf o ganlyniad i law trwm a llifogydd, a bu'n rhaid torri'r wyl yn fyr ar ôl canfod diffygion o ran diogelwch y cyhoedd. O ganlyniad mae'r heddlu yn argymell nifer o amodau ychwanegol ar drwydded Wakestock fel a ganlyn:-

i) Bod y trwyddedai neu ei gynrychiolydd yn bresennol ym mhob cyfarfod o'r Grwp Ymgynghorol Digwyddiadau Gwynedd a fydd yn trafod trefnu digwyddiad Wakestock.
ii) Bod y trwyddedai yn ymgynghori'n llawn â'r Grwp Ymgynghorol Digwyddiadau Gwynedd ac yn cydymffurfio â'r holl amodau a gytunir rhwng y trwyddedai â'r Grwp.
iii) Bod y Grwp, yr Heddlu a Chyngor Gwynedd yn derbyn o leiaf dri mis o rybudd o bob digwyddiad allanol o bwys
iv) Bod yr adeiledd, pob ffens diogelwch, safleoedd gwersylla, arwyddion a maesydd parcio yn gwbl weithredol a pharod i'w harchwilio 48 awr cyn bod ar agor i'r cyhoedd, ynghyd a manylion y Swyddogion Diogelwch.
v) Bod nifer digonol o Swyddogion Diogelwch yn bresennol ar y safle 24awr cyn agor y safle i'r cyhoedd.

Adroddwyd bod y trwyddedai wedi cytuno â'r amodau hyn, ac adroddwyd y byddai'r amodau yn fodd i ddiwallu'r problemau a ddaeth i'r amlwg y llynedd. Mae'r heddlu yn fodlon iawn ar y ffordd y mae nifer fawr o asiantaethau megis gwahanol adrannau priodol y Cyngor, y Gwasanaeth Tân, yr Heddlu, Awdurdod Iechyd ac yn y blaen yn weithredol yn paratoi ar gyfer yr Wyl, trwy gyfarfod yn rheolaidd i drafod y trefniadau. Ychwanegwyd bod y trwyddedai yn cydweithio'n llwyr â'r asiantaethau hyn er sicrhau diogelwch y cyhoedd yn ystod yr Wyl.

Wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau, cyflwynwyd y sylwadau canlynol:-

- Mae'r gwaith adeiladu ar y safle yn cychwyn wythnos ymlaen llaw
- Fe godir ffens diogelwch o gwmpas y safle o'r cychwyn, a bydd swyddogion diogelwch ar ddyletswydd drwy'r amser
- Fe gyflogir cwmni diogelwch cenedlaethol sy'n gyfarwydd â threfnu digwyddiadau sylweddol
- Yn ystod yr Wyl bydd oddeutu 150 o swyddogion diogelwch ar ddyletswydd, ynghyd ag asiantaethau megis yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân a'r Awdurdod Iechyd
- Bydd goruchwyliaeth fanwl ar y fynedfa i wahardd mynediad i rai meddw, ac ni chaniateir neb i gario diod i mewn i'r safle

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd (yr Heddlu) gyflwyno'r cais;
ii. rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd;
iii. rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais gyda'r ymgynghorai;
iv. rhoddwyd cyfle i aelodau'r Heddlu grynhoi yr achos.

**PENDERFYNWYD ychwanegu'r amodau canlynol i drwydded Wakestock:-**

**i)** **Bod y trwyddedai neu ei gynrychiolydd yn bresennol ym mhob cyfarfod o'r Grwp Ymgynghorol Digwyddiadau Gwynedd a fydd yn trafod trefnu digwyddiad Wakestock.**
**ii)** **Bod y trwyddedai yn ymgynghori'n llawn â'r Grwp Ymgynghorol Digwyddiadau Gwynedd ac yn cydymffurfio â'r holl amodau a gytunir rhwng y trwyddedai â'r Grwp.**
**iii)** **Bod Grwp Ymgynghorol Digwyddiadau Gwynedd, yr Heddlu a Chyngor Gwynedd yn derbyn o leiaf dri mis o rybudd o bob digwyddiad awyr agored o bwys**
**iv)** **Bod yr adeiledd, pob ffens diogelwch, safleoedd gwersylla, arwyddion a meysydd parcio yn gwbl weithredol a pharod i'w harchwilio gan bob asiantaeth 48 awr cyn bod ar agor i'r cyhoedd, ynghyd a manylion y Swyddogion Diogelwch.**
**v)** **Bod nifer digonol o Swyddogion Diogelwch yn bresennol ar y safle 24awr cyn agor y safle i'r cyhoedd.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb yr anfonir llythyr o fewn saith diwrnod yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor a hysbyswyd pawb o'r hawl i apelio yn erbyn dyfarniad yr Is-bwyllgor, a'r broses o wneud hynny.

**2. CAIS AM ADOLYGIAD TRWYDDED TY NEWYDD, SARN MELLTEYRN**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar gais yr heddlu i adolygu trwydded eiddo Ty Newydd, Sarn Mellteyrn, Pwllheli yn gofyn am amodau ychwanegol i'r drwydded ar sail Diogelwch Cyhoeddus. Adroddodd y Swyddog i dderbyn llythyr gan y Gwasanaeth Tân yn datgan nad yw'r safle yn dod i mewn i'r categori 'risg uchel' sydd gan y Gwasanaeth ac nad yw'r adolygiad yn cyfeirio at ddiogelwch tân ac felly ni chynhelir arolwg pellach o'r safle. Hefyd iddo dderbyn datganiad gan y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn cyflwyno sylwadau i ymateb i adroddiad yr Heddlu ar y digwyddiadau yn y dafarn yn ystod 2007.

Wrth gefnogi sylwadau'r Heddlu, adroddodd y Cydlynydd Trwyddedu ar gefndir y cais, gan gyfeirio at Gynllun Gweithredu a gytunwyd gyda'r Goruchwyliwr Safle yn Ionawr 2007 o ganlyniad i bryderon yr Heddlu ynghylch rheolaeth yr eiddo. Ni fu gwelliant ac yn ystod mis

Gorffennaf 2007 cytunwyd i ymestyn y Cynllun am chwe mis. O ganlyniad i ddigwyddiad yn ystod mis Hydref 2007 bu rhaid i swyddogion yr Heddlu ymweld â'r safle ac arestio cwsmer am ymladd gyda'r Goruchwyliwr a gwelwyd nad oedd y swyddogion priodol ar ddyletswydd ar y drws.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd (yr Heddlu) gyflwyno'r cais;
ii. rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd;
iii. rhoddwyd cyfle i aelodau'r Heddlu grynhoi yr achos.

Oherwydd y digwyddiadau a nodir, argymhelliad yr Heddlu yw bod yr hyn a nodir yn y Cynllun Gweithredu bellach yn cael eu gosod fel amodau i drwydded y Ty Newydd.

**PENDERFYNWYD ychwanegu'r amodau canlynol i drwydded Ty Newydd, Sarn Mellteyrn, Pwllheli:**

**i) Bod o leiaf 2 swyddog trwyddedig SIA i fod yn gwarchod y drws yn ystod pob achos o adloniant a drefnwyd fel y gall y Goruchwyliwr Dynodedig Eiddo reoli'r safle yn effeithiol ac effeithlon**
**ii) Bod swyddogion y drysau i oruchwylio pob mynediad ac ymadawiad pan fo adloniant ymlaen. Dim gwydrau, poteli na chynhwysyddion agored i'w cario allan o'r safle.**
**iii) Bod y Goruchwyliwr Dynodedig Eiddo i weithredu cynllun tystiolaeth oedran ac i herio unrhyw un dan amheuaeth o yfed dan oed**
**iv) Bod Teledu CC i fod yn weithredol ar y safle a'r tapiau i'w cadw am 31 diwrnod**
**v) Bod Goruchwyliwr Dynodedig yr Eiddo i gymryd rhan weithredol yng nghynllun Pwllheli & Penllyn Pubwatch ac i roi gwybod i'r Heddlu am bob achos o anrhefn**
**vi) Bod Goruchwyliwr Dynodedig yr Eiddo i ofalu nad oes yr un meddwyn i dderbyn alcohol nac i gael mynediad i'r safle**
**vii) Bod yr Heddlu yn cael gwybodaeth 14 diwrnod ymlaen llaw am bob digwyddiad o adloniant byw sydd i gymeryd lle yn yr eiddo**

Hysbyswyd pawb o'r hawl i apelio yn erbyn dyfarniad yr Is-bwyllgor a'r broses o wneud hynny.

## 3. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED TY NEWYDD, ABERDARON

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn amlinellu cais yr heddlu i adolygu trwydded eiddo Ty Newydd, Aberdaron yn gofyn am wyro oriau'r drwydded bresennol. Daw'r cais o ganlyniad i gwynion dderbyniwyd gan ddau drigolyn lleol am y swn a'r ymddygiad gwrth-gymdeithasol wrth i gwsmeriaid adael y ddwy dafarn yn y pentref yn hwyr y nos.

Adroddodd y Swyddog i dderbyn llythyr gan berchennog yr eiddo yn ymateb i sylwadau'r Heddlu, a llythyrau gan ddau drigolyn lleol yn gwrthwynebu'r cais i gau'r dafarn ynghynt oherwydd eu bod yn credu y byddai hyn yn ychwanegu at y broblem o bobl yn ymgasglu yng nghanol y pentref.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd (yr Heddlu) gyflwyno'r cais;
ii. rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd;
iii. rhoddwyd cyfle i aelodau'r Heddlu grynhoi yr achos.

Wrth gefnogi'r sylwadau a gyflwynwyd yn y cais, adroddodd swyddog yr Heddlu fod lle i gredu bod cwsmeriaid yn cael mynediad i'r safle yn hwyrach na 23.00 fel a nodir ar y drwydded, a bod tystiolaeth bod y nifer o achosion o Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol ym mhentref Aberdaron yn uchel iawn, a hynny'n ymwneud â chwsmeriaid y ddwy dafarn yn y pentref. Cafwyd gwybodaeth bod yr Heddlu wedi trefnu i gyfarfod â thrwddedai y ddwy dafarn yn fisol. Adroddwyd ymhellach y bu i swyddog o'r Heddlu gyfarfod â pherchennog yTy Newydd a dod i gytundeb ynglyn â'r oriau a ganiateir i weithgareddau trwyddedu hyd at hanner nos gyda'r eiddo yn cau i'r cyhoedd am 00.30awr yn ddyddiol. Nodwyd i'r cytundeb hefyd gael ei dderbyn gan y ddau aelod o'r cyhoedd oedd wedi gwneud datganiadau i gydfynd â'r cais.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nodwyd y bydd y ddwy dafarn yn y pentref yn cadw'r un oriau yn dilyn y cytundeb hwn.

**PENDERFYNWYD ychwanegu'r amodau canlynol i drwydded bresennol Ty Newydd, Aberdaron:**

i. **Caniatau gweithgareddau trwyddedu o 10.00awr hyd at 24.00awr Dydd Gwener a Dydd Sadwrn**
ii. **Caniatau i'r eiddo fod ar agor o 10.00awr hyd at 00.30awr Dydd Gwener a Dydd Sadwrn**
iii. **Dim cynwysyddion diod o gwbl i fynd allan o'r eiddo**

Hysbyswyd pawb o'r hawl i apelio yn erbyn dyfarniad yr Is-bwyllgor, a'r drefn o wneud hynny.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.30pm a daeth i ben am 3.30pm